Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

**Cwestiwn 1:**

Faint o ffurflenni trafodiadau tir sydd wedi'u derbyn gan Swyddfa Merthyr Tudful a anfonwyd yn y lle cyntaf i Swyddfa Pontypridd a arweiniodd at gosbau'n cael eu codi?

**Ymateb ACC 1:**

Roedd ailgyfeirio yn ei le o fis Chwefror 2020. Yn ystod cyfnod yr ailgyfeirio (Chwefror 2020 hyd 31 Awst 2023) rhoddwyd cosbau am ffeilio'n hwyr ar 123 o ffurflenni papur gafodd eu ffeilio'n hwyr.

Os ydym yn edrych ar gyfnod 3 Ebrill 2023 hyd 31 Awst 2023 (o ddyddiad y blwch post newydd a thra'r oedd yr ailgyfeirio'n digwydd). Rhoddwyd cosbau ffeilio hwyr ar 17 o ffurflenni papur gafodd eu ffeilio'n hwyr.

**Cwestiwn 2:**

A gafodd cosbau eu rhoi ym mhob achos o'r fath?

**Ymateb ACC 2:**

Na. Cafodd cyfanswm o 479 o ffurflenni papur eu ffeilio'n hwyr (Chwefror 2020 hyd 31 Awst 2023) a rhoddwyd cosbau am ffeilio hwyr i 123 (26%) ohonynt.

Ar gyfer Cyfnod 3 Ebrill hyd 31 Awst 2023, roedd 28 o ffurflenni papur wedi'u ffeilio'n hwyr a chafodd 17 (61%) gosb am ffeilio'n hwyr.

**Cwestiwn 3:**

Pa drefniadau a wnaed gyda'r Post Brenhinol i'r post gael ei ailgyfeirio o Swyddfa Pontypridd i Swyddfa Merthyr Tudful ac os nad oedd trefniadau, pam?

**Ymateb ACC 3:**

Roedd trefniadau ar waith o fis Chwefror 2020 hyd 31 Awst 2023 i bost gael ei ailgyfeirio o Bontypridd. Sefydlwyd blwch PO newydd ar gyfer Merthyr o 3 Ebrill 2023. Bu gorgyffwrdd gyda'r 2 flwch post (Merthyr a Phontypridd) yn cael eu defnyddio ac ailgyfeirio yn ei le tan 31 Awst 2023. Ni chafodd hyn ei ymestyn gan nad oeddem yn derbyn unrhyw bost drwy'r ailgyfeirio o swyddfa Pontypridd.

**Cwestiwn 4:**

Faint mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi ei gasglu o gosbau o dan amgylchiadau o'r fath?

**Ymateb ACC 4:**

Mae cyfanswm o £24,000 o gosbau am ffeilio ffurflenni papur yn hwyr yn ystod y cyfnod rhwng Chwefror 2020 ac Awst 2023. (Dadansoddiad fel a ganlyn, 11 X £700 (dros 12 mis), 17 X £400 (dros 6 mis) a 95 X £100. Ar gyfer y cyfnod 3 Ebrill hyd 31

Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

Awst 2023, mae'r cosbau am ffeilio ffurflenni papur yn hwyr wedi dod i gyfanswm o £3,500.